OFFERYNNAU STATUDOL

2009 Rhif 3052 (Cy.268)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau Pentref Llaneirwg, Tredelerch a Trowbridge) 2009

Gwnaed - - - - 17 Tachwedd 2009

Yn dod i rym - - 1 Rhagfyr 2009

Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), dyddiedig Chwefror 2009 ar adolygiad a wnaed gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ar ffiniau cymunedau, ynghyd â chynigion a luniwyd gan y Comisiwn gogyfer â'r rheiny.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi eu heffaith i gynigion y Comisiwn heb addasiadau.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd wedi'u breinio bellach ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**):

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau Pentref Llaneirwg, Tredelerch a Trowbridge) 2009 a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2009.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

Mae "Map A" ("*Map A*"),"Map B" ("*Map B*") a "Map C" ("*Map C*") yn golygu yn eu tro y mapiau sydd wedi'u marcio A, B ac C yng Ngorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau Pentref Llaneirwg, Tredelerch a Trowbridge) 2009, sydd wedi'u hadneuo yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**3**); ac

os dangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol gyffelyb, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

(**1**) 1972 p. 70.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol ond nad yw'r diwygiadau hynny'n berthnasol i'r offeryn statudol hwn).

3. Gwneir newidiadau i ardal llywodraeth leol Dinas a Sir Caerdydd yn unol â'r darpariaethau a ganlyn yn y Gorchymyn hwn.

Trowbridge a Phentref Llaneirwg — newid mewn ardaloedd cymunedol

4.—(1) Trosglwyddir y rhannau o gymuned Trowbridge a ddisgrifir ym mharagraff (2) i gymuned Pentref Llaneirwg.

(2) Y rhannau hynny yw—

(i) y rhan a ddangosir â chroeslinellau ar Fap A;

(ii) y rhan a ddangosir â chroeslinellau ar Fap B;

(iii) y rhan a ddangosir fel rhan groeslinellog "a" ar Fap C.

Tredelerch a Phentref Llaneirwg — newid mewn ardaloedd cymunedol

5. Trosglwyddir y rhan honno o gymuned Tredelerch a ddangosir fel rhan groeslinellog "b" ar Fap C i gymuned Pentref Llaneirwg.

Pentref Llaneirwg/Pontprennau — adran etholiadol

6. Mae'r rhan a drosglwyddir o dan erthyglau 4 a 5 yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pentref Llaneirwg/Pontprennau.

Brian Gibbons
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

17 Tachwedd 2009

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn rhoi eu heffaith i gynigion gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn") a adroddodd ym mis Chwefror 2009 ar adolygiad o ffiniau a wnaed gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd. Argymhellodd yr adroddiad newidiadau i'r ffiniau presennol. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi eu heffaith i argymhellion y Comisiwn heb eu haddasu.

Mae printiau o fapiau yn dangos y ffiniau wedi eu hadneuo a gellir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol.

Map A Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau Pentref Llaneirwg, Tredelerch a Trowbridge) 2009



Mae'r map hwn wedi'i seilio ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron 2009.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif y Drwydded: 100017916

92.09-10 Cynhyrchwyd gan Gartograffeg, Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Map B Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau Pentref Llaneirwg, Tredelerch a Trowbridge) 2009



Mae'r map hwn wedi'i seilio ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron 2009.

Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Drwydded: 100017916

92.09-10 Cynhyrchwyd gan Gartograffeg, Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Map C Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau Pentref Llaneirwg, Tredelerch a Trowbridge) 2009



Mae'r map hwn wedi'i seilio ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron 2009. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Drwydded: 100017916

92.09-10 Cynhyrchwyd gan Gartograffeg, Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru